

DOLEN Y TAB 90

21–22 Ionawr 2022

Bore Sul 23 Ionawr am 11

Oedfa yng ngofal Heulyn Rees a'r Parchedig Gethin Rhys. Eleri fydd yn cyfeilio. Bydd modd gwyllo'r oedfa'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel, ynghyd â recordiad ohoni yn ddiweddarach ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Ionawr

30 Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

Chwefror

6 Y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

13 Y Parchedig Aled Edwards

20 Edwyn Evans

Hefyd ddydd Sul 23 Ionawr

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Dr Hefin Jones, Caerdydd.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol –

Cariad Bydd Lisa yn Ynys Llanddwyn yn dysgu mwy am hanes rhyfeddol Santes Dwynwen yng nghwmni Rhiannon Ifans.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Diffibriliwr

Bydd rhai ohonoch yn cofio i'r Tabernacl drefnu ymgyrch lwyddiannus iawn dros bedair blynedd a hanner yn ôl bellach i godi arian er mwyn gosod diffibriliwr yn y pentref. Yn ddiweddar, mae Emlyn 'Pens' Jones wedi sicrhau bod y ddyfais yn cael ei chofrestru ar y gwefannau niferus sy'n dangos lleoliad diffibrilwyr lleol. Wrth ddiolch i Pens am drefnu hyn, manteisiwn ninnau ar y cyfle hefyd i atgoffa pawb bod y diffibriliwr wedi'i leoli ar bwys drysau neuadd y pentref. Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi awgrym Pens i drefnu sesiwn neu sesiynau hyfforddi unwaith yn rhagor i esbonio sut i ddefnyddio'r ddyfais.

Y Cam Nesaf

Wrth i'r niferoedd yng Nghymru sydd wedi dal Omicron ostwng yn ddramatig dros y deng niwrnod diwethaf, mae lle i fod yn hyderus y byddwn yn symud i Lefel Rhybudd Sero erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Os felly, bydd modd i ni lacio ychydig ar y cyfyngiadau yn y Tabernacl. Y newid pennaf a ddisgwylir yw mai galw am gadw pellter o un fetr yn hytrach na dwy rhwng pob swigen a wneir. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu i ni groesawu hyd at 50 i addoli yn yr adeilad ar foreau Sul. Ein gobaith yw y byddwn yn medru cadarnhau'r newyddion mewn da bryd cyn y cwrdd ar 30 Ionawr.

Llongyfarchiadau!

Yn eu cyfarfod ddechrau Ionawr, estynnodd y Bwrdd eu llongyfarchiadau i:

- blant ac athrawon yr Ysgol Sul am eu holl waith wrth baratoi a chynnal Gwasanaeth Nadolig hynod lwyddiannus, a hynny ar waetha'r amgylchiadau anodd y bu raid eu goresgyn yn sgil y pandemig;
- aelodau'r Twmiaid a'u harweinydd Eleri Mai am eu hoedfa Nadolig llwyddiannus hwythau, ac am ofalu bod pob un ohonom yn gwenu'n ddyddiol trwy gydol fis Rhagfyr wrth agor eu cyfarchion adfent ar *Facebook*.

Ar waetha'r cyfyngiadau newydd ddaeth i rym ar ddiwedd 2021, braf yw gweld hefyd bod yr Ysgol Sul a'r Twmiaid wedi aildechrau cwrdd ar ddechrau'r flwyddyn a'r Twmiaid Bach (plant blynyddoedd 5 a 6) wedi cwrdd am y tro cyntaf ganol mis Ionawr.

Cylch Cadwgan

7.30 Nos Wener
11 Chwefror 2022

Myrdd o ryfeddodau – rhai hoff gerddi
Glenys M. Roberts

Trefnir gan
Gapel y Tabernacl, Efailisaf

Cyfarfod Zoom

7.30 Nos Iau
10 Mawrth 2022

Delweddau o Cynan
Yr Athro Gerwyn Williams

Trefnir gan
Gymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cyfarfod Zoom

Almanaciau Cymraeg

I'r sawl sydd wedi gwirioni'n lân ar griced, mae'r geiriau Almanac a Wisden yn gyfystyron. Does ryfedd felly bod y blwyddlyfr hwnnw sy'n gyforiog o ystadegau ac erthyglau am gemau a chwaraewyr yn cael ei weld fel 'beibl y byd criced'. Tipyn o syndod, felly, oedd dadlapio anrheg ddydd Nadolig a gweld mai almanac am y flwyddyn newydd oedd ynddi – heb yr un cyfeiriad at griced! Serch hynny, mae'n gyfrol llawn gwybodaeth hanesyddol hynod ddiddorol am y tywydd a nodweddion yr hinsawdd. Defnyddiol iawn hefyd i rai yw'r manylion am amserau codiad a machlud yr haul ynghyd â rhod y lloer.

Heddiw, does yr un cyhoeddwr yn barod i fentro cynhyrchu almanac Cymraeg ar batrwm yr *Old Moore's Almanack*, ond fe gawsom ein hatgoffa fore Mercher, mewn sgwrs ddifyr ar raglen Aled Hughes gyda Dafydd Tudur o'r Llyfrgell Genedlaethol, bod hanes hir a chyfoethog iawn i almanaciau Cymraeg. Erbyn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg, roedd cyhoeddi almanaciau wedi datblygu'n ddiwydiant proffidiol iawn yn Lloegr. Y Cymro cyntaf i neidio at y cyfle i ennill bywoliaeth gyfforddus drwy gyhoeddi almanac Cymraeg oedd Thomas Jones o ardal Corwen, a ddisgrifir gan ei gofiannydd, Geraint H. Jenkins, fel un o gymeriadau mwyaf lliwgar Cymru yn ystod teyrnasiad y Stiwartiaid. Sefydlodd ei almanac yn 1680 a'i gyhoeddi'n ddi-fwlch hyd at 1712. Ymunodd nifer fawr o almanacwyr eraill â'r maes yn y ddeunawfed ganrif; roedd gwerthiant i'r almanaciau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd, a goroesodd ambell deitl i mewn i hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Roedd yr almanaciau'n amrywiol iawn eu cynnwys – megis amserau codiad a machlud haul, tablau llanw a thrai, dyddiadau ffeiriau a marchnadoedd, dyddiadau plannu a nodiadau meddygol, rhestr gronolegol o ddigwyddiadau hanesyddol pwysig, gweithiau llenyddol ac ati – llawer ohono'n wybodaeth ymarferol i ffermwyr a thyddynwyr tlawd. Ond does dim amheuaeth mai'r adran proffwydoliaethau am y tywydd a materion y dydd oedd fwyaf deniadol, am iddynt fwydo ofergoeliaeth mwyafrif trigolion Cymru'r cyfnod. Camp eu hawduron oedd cyflwyno'r proffwydoliaethau yn y fath fodd fel eu bod yn ddigon amwys. O ganlyniad roedd llawer o'u daroganau'n chwerrhinllyd, megis 'bydd llawer o hen bobl yn marw' a 'byddai twyllo a chogio' yn ystod y flwyddyn newydd. Ar waetha'r gau-broffwydo roedd gwerth i'r almanaciau megis rhai Thomas Jones, ym marn Geraint Jenkins, gan eu bod yn ffynonellau gwybodaeth werthfawr mewn cyfnod cyn dyfodiaid papurau newydd i ddiwallu'r syched am wybodaeth ac i hyrwyddo gwaith llenorion Cymraeg.

Gan eu bod wedi eu hargraffu'n bennaf ar bapur rhad, a byrhoedlog oedd eu defnyddioldeb, ychydig o'r almanaciau cynnar sydd wedi goroesi. Byddai'r casgliad ohonynt yn y Llyfrgell Genedlaethol yn llawer tlotach oni bai am gasgliadau preifat dau o'u prif gymwynaswyr, sef Syr John Williams a J.H. Davies. Hefyd yn Llyfrgell Salisbury ym Mhrifysgol Caerdydd mae casgliad helaeth o tua mil o almanaciau Cymraeg o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen i'r ugeinfed ganrif.



Coffi a Sgwrs
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00
Croeso i bawb



Y Ganolfan,
Capel Tabernacl **10.00-11.30**

Dydd Llun 17eg, 31ain o Ionawr a
Chwefror 14eg



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i
plant/wyrion/wyresau

Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd
a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mary Jones: Eicon Ryngwladol

Sgwrs rithwir gan yr
Athro E. Wyn James, Caerdydd
i gyd-fynd â'r arddangosfa
'Beibl i Bawb' yn y llyfrgell.

5 o'r gloch bawn dydd Mawrth
25 Ionawr 2022

Dyma'r ddolen ar gyfer cofrestru
(yn rhad ac am ddim):

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-lqllne>

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at:
07710 237327 / 01443 225205 /
gehpengwern@yahoo.co.uk